**LMCB3** **Rheoli darpariaeth gwasanaethau gofal sy'n delio'n effeithiol â chyfnodau o drosglwyddo a digwyddiadau pwysig mewn bywydau**

**Elfennau Cymhwysedd**

**LMC B3.1** **Gweithredu systemau, gweithdrefnau ac arferion i gynorthwyo pobl drwy gyfnodau o drosglwyddo a digwyddiadau pwysig yn eu bywydau**

**LMC B3.2** **Arwain a rheoli darpariaeth sy'n cynorthwyo pobl i ddelio'n effeithiol â chyfnodau o drosglwyddo a digwyddiadau pwysig yn eu bywydau**

**LMC B3.3** **Gweithredu ac adolygu systemau, gweithdrefnau ac arferion ar gyfer rhannu gwybodaeth am gyfnodau o drosglwyddo a digwyddiadau pwysig mewn bywydau**

## Ynglŷn â'r uned hon

Mae'r uned hon ar gyfer arweinwyr a rheolwyr gwasanaethau gofal. Mae'n ymwneud â rheoli a chynnal darpariaeth gwasanaethau gofal sy'n cynorthwyo pobl i ddelio'n effeithiol â chyfnodau o drosglwyddo a digwyddiadau pwysig yn eu bywydau.

## Cwmpas

Mae'r cwmpas yma i roi arweiniad i chi ar feysydd posib y gellid eu cynnwys yn yr uned hon. Mae angen i chi ddarparu tystiolaeth ar gyfer y meysydd sy'n berthnasol i'r gwasanaeth gofal rydych chi'n ei arwain a'i reoli, a rhoi esboniad rhesymegol a chadarn dros beidio â darparu tystiolaeth ar gyfer yr eitemau eraill.

Mae **pobl** yn cynnwys:

- oedolion sy'n defnyddio gwasanaethau gofal, eu teuluoedd, cynhalwyr, grwpiau a chymunedau
- plant a phobl ifanc sy'n defnyddio gwasanaethau gofal, eu rhieni/cynhalwyr, teuluoedd, cynhalwyr, grwpiau a chymunedau

**Iaith a dulliau cyfathrebu dewisol,** gan gynnwys: yr iaith y mae pobl yn dewis ei siarad; y defnydd o arwyddion; symbolau; lluniau; ysgrifennu; gwrthrychau i gyfeirio atynt; pasbortau cyfathrebu; dulliau cyfathrebu eraill ar wahân i siarad; cymhorthion dynol a thechnolegol i gyfathrebu, ymadroddion cyn llefaru ymysg babanod a phlant ifanc

Gallai **pobl eraill berthnasol** gynnwys: gweithwyr proffesiynol eraill a ddylai gyfrannu at y gweithgarwch, pobl sy'n rhan o'r ddarpariaeth a ddylai gyfrannu at y gweithgarwch, pobl o'r tu allan i'r ddarpariaeth a ddylai gyfrannu at y gweithgarwch

Gallai **cyfnodau o drosglwyddo** cynnwys: pobl sy'n symud i mewn ac allan o'ch darpariaeth i wasanaeth arall a symud i fyw'n annibynnol neu, o ran **plant a phobl ifanc** gallai gynnwys: trosglwyddo i ddosbarth arall yn yr un ysgol neu goleg; trosglwyddo i ysgol arall, e.e. o ysgol gynradd i uwchradd; o ysgol i goleg neu brifysgol; trosglwyddo o un ysgol i'r llall; profi cyfnodau o drosglwyddo, fel newidiadau corfforol, e.e. cyfnod glasoed; profiadau emosiynol fel profedigaeth

Gallai **gweithwyr** gynnwys: y bobl sy'n cynorthwyo'r rhai hynny yn eich darpariaeth sy'n weithwyr cyflogedig, gweithwyr digyflog, gweithwyr contract neu weithwyr digontract.

Mae'ch **gwybodaeth a'ch dealltwriaeth** ar gyfer yr uned hon yn ymwneud â: gofynion cyfreithiol a chyfundrefnol ar gyfer gwasanaethau gofal; codau ymarfer ac ymddygiad cyflogwyr a gweithwyr cyflogedig mewn gwasanaethau gofal; hyd a lled y ddealltwriaeth a fydd yn eich galluogi i arwain a rheoli gwasanaethau gofal yn effeithiol, cynorthwyo gweithwyr i berfformio'n gymwys, sicrhau lles pawb yn eich darpariaeth, gwerthuso'n feirniadol, asesu ac ymyrryd yn briodol i ddatrys problemau a gwrthdaro a'r angen i ddeall a chydweithio â phobl, gweithwyr a phobl eraill berthnasol o fewn a thu hwnt i'ch darpariaeth i sicrhau ei dilysrwydd yn y tymor byr, canolig a'r hirdymor.

**Y gwerthoedd sy'n sail i'r uned gyfan**

Mae'r gwerthoedd sy'n sail i'r uned hon yn deillio o'r datganiad diben allweddol, y safonau gwasanaeth a chodau ymarfer perthnasol ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol ym mhedair gwlad y DU. I gyflawni'r uned hon mae'n rhaid i chi arddangos eich bod wedi rhoi ar waith yr egwyddorion sy'n ofynnol i reoli gwasanaethau gofal ac a amlinellir yn LMCB1.

CYNGOR GOFAL CYMRU
CARE COUNCIL FOR WALES

**Geiriau a Chysyniadau Allweddol**

Mae'r adran hon yn rhoi esboniadau a diffiniadau o'r geiriau a'r cysyniadau allweddol a ddefnyddir yn yr uned hon. Mae'n gyffredin iawn mewn safonau galwedigaethol i ddod o hyd i eiriau neu ymadroddion y byddwch yn gyfarwydd â nhw, ond a allai gael eu defnyddio mewn ffordd benodol iawn ym manylion y safonau. **Felly, fe'ch anogir i ddarllen yr adran hon yn ofalus cyn i chi ddechrau gweithio gyda'r safonau, a chyfeirio'n ôl ati yn ôl y gofyn.**

| | |
|---|---|
| **Cam-drin** | Cam-drin yw achosi niwed corfforol, emosiynol, rhywiol ac/neu ariannol i unigolyn a/neu fethu/peidio â'u hamddiffyn rhag niwed. Gallai hyn fod ar lefel bersonol neu sefydliadol |
| **Ymddygiad** | Mae ymddygiad yn cynnwys sut mae pobl yn delio â sefyllfaoedd ac yn adweithio iddynt. Mae'n cynnwys gweithredoedd (neu ddiffyg gweithredoedd) ac adweithiau geiriol, di-eiriau, corfforol, gwybyddol a deallusol unigolyn |
| **Cyfyng-gyngor** | Materion lle ceir gwahaniaethau barn neu bryderon moesegol ynglŷn â ffordd o weithredu |
| **Llywodraethu** | Y ffordd mae'r ddarpariaeth yn cael ei llywodraethu a'i chyfeirio fel sy'n ofynnol yn ôl deddfwriaeth, rheoliadau, safonau a chanllawiau |
| **Cynrychiolaeth ac eiriolaeth annibynnol** | Lle mae barn, dymuniadau a phryderon yr oedolyn/plentyn/person ifanc yn cael eu cyfathrebu gan unigolyn arall naill ai drwy i rywun gynrychioli ei ddymuniadau'n annibynnol neu weithredu fel ei eiriolwr |
| **Arweinyddiaeth** | Y gallu i ddarparu model arferion gorau sy'n greadigol, arloesol, ysgogol a hyblyg, gan gynorthwyo pobl i ddilyn trwy ddangos esiampl a thrwy eu parchu. |
| **Rheoli** | Y gallu i arwain a threfnu'r gwaith o redeg y ddarpariaeth yn effeithiol, a diwallu anghenion cyffredinol y gwasanaeth a gofynion y gyfraith, cofrestru, rheoliadau ac arolygiadau. Mae rheolwyr effeithiol yn gallu datrys problemau, cydbwyso anghenion pawb yn y ddarpariaeth, rheoli gofynion sy'n cystadlu yn erbyn ei gilydd ac i ymdopi o dan bwysau. |
| **Gofynion Cyfundrefnol** | Agweddau ar bolisïau, gweithdrefnau ac arferion sy'n ofynnol gan y gwasanaeth a'r ddarpariaeth. |
| **Partneriaeth** | Cydweithio'n effeithiol â phobl, gweithwyr proffesiynol, asiantaethau a sefydliadau i wella lles pobl a chynorthwyo canlyniadau gwell a chadarnhaol |
| **Pobl** | O ran oedolion, mae pobl yn cynnwys oedolion sy'n defnyddio gwasanaethau gofal, eu heiriolwyr, eu teuluoedd, cynhalwyr, eraill arwyddocaol, grwpiau a chymunedau<br>O ran plant a phobl ifanc, mae pobl yn cynnwys y plant a'r bobl ifanc sy'n defnyddio gwasanaethau gofal, eu heiriolwyr, eu rhieni/cynhalwyr, teuluoedd, athrawon, darlithwyr coleg, eraill arwyddocaol, grwpiau a chymunedau |
| **Canlyniadau** | Canlyniadau manteisiol i oedolion fel y'u nodir yn rheoliadau a |

| | |
|---|---|
| **Cadarnhaol** | chanllawiau pob gwlad yn y DU ac fel y cytunir arnynt gydag ac ar gyfer pob unigolyn o fewn y ddarpariaeth fel sy'n briodol. Mae'r rhain yn cynnwys:<br>• gwell iechyd, lles emosiynol ac ansawdd bywyd<br>• cadw'n ddiogel ac yn rhydd o wahaniaethu ac aflonyddu<br>• mwynhau, cyflawni a gwneud cyfraniad cadarnhaol<br>• gwneud dewisiadau ac ymarfer rheolaeth<br>• cyflawni lles economaidd, urddas a pharch<br>Canlyniadau manteisiol i blant a phobl ifanc fel y'u nodir yn rheoliadau pob gwlad yn y DU ac fel y cytunir arnynt gyda phlant a phobl ifanc. Mae'r rhain yn cynnwys:<br>• bod yn iach<br>• cadw'n ddiogel<br>• mwynhau a chyflawni<br>• gwneud cyfraniad cadarnhaol<br>• cyflawni lles economaidd |
| **Darpariaeth** | Yr uned benodol neu ran o'r gwasanaeth yr ydych chi'n gyfrifol am ei harwain a'i rheoli |
| **Pobl eraill berthnasol** | Pobl allweddol o fewn a thu hwnt i'r ddarpariaeth y mae'n fanteisiol gweithio gyda nhw ac sy'n gallu dylanwadu ar y ddarpariaeth a'r canlyniadau ar gyfer y ddarpariaeth a phobl ynddi |
| **Adnoddau** | Asedau'r ddarpariaeth: ariannol, dynol, ffisegol ac amgylcheddol |
| **Hawliau** | Hawliau:<br>• oedolion yw'r rhai sydd wedi'u cynnwys yn Natganiad Cyffredinol o Hawliau Dynol y Cenhedloedd Unedig<br>• plant a phobl ifanc yw'r rhai sydd wedi'u cynnwys yng Nghonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn<br>Mae'r rhain yn cynnwys hawliau dan y codau ymarfer gofal cymdeithasol y dylai pawb gael: eu parchu (o ran eu credoau, diwylliant a gwerthoedd); eu trin a'u gwerthfawrogi'n gyfartal, a pheidio â dioddef gwahaniaethu yn eu herbyn; eu trin fel unigolion; eu trin ag urddas; eu cynnwys yn gymdeithasol; eu cynnwys mewn gweithgareddau; eu diogelu rhag perygl a niwed; derbyn gofal yn y ffordd o'u dewis; preifatrwydd a mynediad i wybodaeth amdanynt eu hunain a gallu cyfathrebu drwy ddefnyddio'r dulliau cyfathrebu ac iaith o'u dewis |
| **Gwasanaeth** | Y sefydliad, asiantaeth neu wasanaeth cyfan y mae'r ddarpariaeth benodol yr ydych chi'n gyfrifol am ei rheoli yn rhan ohono |
| **Digwyddiadau pwysig mewn bywyd** | Newidiadau pwysig ym mywyd person (ym marn yr unigolyn). Gallant fod yn newidiadau cadarnhaol neu negyddol. Gallant fod yn newidiadau a digwyddiadau sy'n tarfu ar eu harferion pob dydd, yn achos pobl sydd â chyflyrau arbennig (e.e. gydag anhwylder sbectrwm Awtistiaeth). I eraill, gallant olygu dechreuad cyflwr dirywiol (e.e. colli synhwyrau, dementia). Gallai eraill wynebu newid sydyn yn eu bywydau (e.e. strôc, |

| | |
|---|---|
| | damwain, colled, profedigaeth) a gallai eraill gael eu heffeithio gan argyfwng neu argyfyngau. |
| **Cymryd camau gwybodus yn erbyn gwahaniaethu** | Cymryd camau i ymdrin â gwahaniaethu ar sail eich gwybodaeth am arferion da, gofynion cyfreithiol a chodau proffesiynol, ac mewn perthynas â gwybodaeth a dderbyniwyd ac a archwiliwyd |
| **Cyfnodau o drosglwyddo** | Newidiadau dyddiol ac ysbeidiol ym mywyd person a allai gael effaith ar eu lles, y ffordd y maent yn ymddwyn ac yn datblygu, eu gallu i barhau i ddysgu a'u gallu i ymdopi â newidiadau eraill. Mae yna ddau brif fath o gyfnod trosglwyddo. Mae'r cyntaf yn ymwneud â chyfnodau o drosglwyddo mewn bywyd bob dydd, er enghraifft, lle bydd oedolion yn symud o'r cartref/y ddarpariaeth i'r ganolfan ddydd neu lle bydd plant yn symud o'r cartref/y ddarpariaeth i'r ysgol. Maent hefyd yn cynnwys newid gweithgareddau ac arferion pob dydd lle bydd y plentyn, person ifanc neu oedolyn eisiau ac yn disgwyl pethau gwahanol.<br>Mae'r ail fath yn ysbeidiol ac yn ymwneud â newid sylweddol ym mywyd yr unigolyn. Gellir rhannu'r cyfnodau o drosglwyddo hyn yn dri chategori. Yn gyntaf, y cyfnodau hynny sy'n gyffredin i'r rhan fwyaf o bobl, er enghraifft, pan fydd pobl yn symud o un math o lety ac amgylchedd byw i un arall. Yn ail, y cyfnodau hynny a rennir gan nifer fawr o gyfoedion, fel teuluoedd yn gwahanu. Yn drydydd, y cyfnodau hynny sy'n bersonol ac na all pobl eraill, o bosibl, eu rhannu na'u deall.<br>O ran plant a phobl ifanc, bydd y cyntaf yn cynnwys trosglwyddo dosbarthiadau yn yr un ysgol neu goleg neu drosglwyddo o un ysgol i un arall. Gallai gynnwys profiadau trosglwyddo hefyd, fel newidiadau corfforol e.e. cyfnod glasoed. Gallai'r ail fod yn ymwneud â'u rhieni'n ysgaru. Gallai'r trydydd ymwneud â bod mewn cartref maeth neu breswyl, bod â rhiant neu gynhaliwr sy'n camddefnyddio cyffuriau neu alcohol, neu fod yn gynhaliwr ifanc |
| **Gweithwyr** | Y rhai hynny sy'n cynorthwyo pobl yn y ddarpariaeth, boed yn weithwyr cyflogedig, gweithwyr digyflog, gweithwyr contract neu weithwyr digontract. |

**LMC B3.1 Gweithredu systemau, gweithdrefnau ac arferion i gynorthwyo pobl drwy gyfnodau o drosglwyddo a digwyddiadau pwysig yn eu bywydau**

**Meini Prawf Perfformio**

Mae angen i chi ddangos eich bod yn

a. gweithredu ac yn adolygu effeithiolrwydd systemau, gweithdrefnau ac arferion sy'n cefnogi **pobl** trwy **gyfnodau o drosglwyddo** a **digwyddiadau pwysig yn eu bywydau**, yng nghyd-destun deddfwriaeth, rheoliadau, arolygiadau a **gofynion cyfundrefnol**

b. sicrhau bod trefniadau gweinyddol wedi'u gwneud ar gyfer unrhyw ofynion cyfreithiol ac ariannol er mwyn cynorthwyo pobl i ymdopi â chyfnodau o drosglwyddo a digwyddiadau pwysig mewn bywyd

c. sicrhau bod digon o staff a sgiliau digonol ar gael i adnabod ac ymateb i anghenion newidiol pobl yn ystod cyfnodau o drosglwyddo a digwyddiadau pwysig mewn bywyd

d. rhoi cyfleoedd dysgu i'r **gweithwyr** i gyd er mwyn eu cynorthwyo i ymateb yn sensitif ac yn briodol i anghenion unigol pobl sy'n profi cyfnodau o drosglwyddo a digwyddiadau pwysig mewn bywyd

e. sicrhau bod gweithwyr yn gallu gofyn am **adnoddau** arbenigol a'u cael er mwyn cynorthwyo pobl trwy gyfnodau o drosglwyddo a digwyddiadau pwysig mewn bywyd

f. sicrhau eich bod yn monitro'r effaith emosiynol a'r straen ar bobl a gweithwyr a fydd yn profi ac yn cefnogi pobl trwy gyfnodau o drosglwyddo a digwyddiadau pwysig mewn bywyd, ac yn delio â hwy trwy oruchwyliaeth a chefnogaeth

g. sicrhau eich bod yn addasu amgylchedd ffisegol ac arferion pob dydd pobl sy'n mynd trwy gyfnodau o drosglwyddo a digwyddiadau pwysig mewn bywyd, yn unol â'u gofynion dros dro neu hirdymor

**LMC B3.2 Arwain a rheoli darpariaeth sy'n cynorthwyo pobl i ddelio'n effeithiol â chyfnodau o drosglwyddo a digwyddiadau pwysig yn eu bywydau**

**Meini Prawf Perfformio**

Mae angen i chi ddangos eich bod yn

a. sicrhau bod pobl, gweithwyr a **phobl eraill berthnasol** yn ymwybodol o'r effaith emosiynol, corfforol a seicolegol mae cyfnodau o drosglwyddo a digwyddiadau pwysig mewn bywyd yn ei chael ar bobl

b. gweithio gyda phobl, gweithwyr a phobl eraill berthnasol i:
   - adnabod yr effaith y gall gwahanol fathau o gyfnodau o drosglwyddo a digwyddiadau pwysig mewn bywydau ei chael ar **ddarpariaeth** a phobl

- sicrhau bod ymyriadau priodol wedi eu cytuno a'u trefnu er mwyn cynorthwyo pobl trwy gyfnodau o drosglwyddo a digwyddiadau pwysig yn eu bywydau

c. arwain ac yn rheoli darpariaeth sy'n cefnogi **hawliau** pobl ac sy'n eu hannog a'u grymuso i gymryd rhan mewn trafodaethau ynglŷn â'u teimladau, eu dymuniadau a'u dewisiadau mewn perthynas â chyfnodau o drosglwyddo a digwyddiadau pwysig yn eu bywydau

d. sicrhau bod pobl a gweithwyr yn gallu manteisio ar gyngor a chefnogaeth er mwyn gallu paratoi pobl ar gyfer cyfnodau o drosglwyddo a digwyddiadau pwysig mewn bywyd, a'u cefnogi trwy'r adegau hynny

e. sicrhau eich bod chi, a phobl, gweithwyr a phobl eraill berthnasol, yn gallu ymateb yn briodol i anghenion pobl sy'n paratoi ar gyfer cyfnodau o drosglwyddo a digwyddiadau pwysig mewn bywyd neu rai sydd wrthi'n eu profi

f. sicrhau bod gan weithwyr ddigon o amser i gefnogi pobl trwy gyfnodau o drosglwyddo a digwyddiadau pwysig mewn bywyd

g. sicrhau eich bod chi a'ch gweithwyr yn gallu:
   - cyfathrebu â phobl a'u paratoi ar gyfer cyfnodau o drosglwyddo a digwyddiadau pwysig mewn bywyd
   - gwylio, gwrando a sylwi ar **ymddygiad** pobl er mwyn nodi unrhyw bryderon ynglŷn â'u hiechyd corfforol neu feddyliol
   - adnabod agweddau o'ch ymddygiad eich hunan neu eu hymddygiad hwy a allai gael effaith groes ar y bobl sy'n profi cyfnodau o drosglwyddo a digwyddiadau pwysig yn eu bywydau
   - cael cyngor gan gydweithwyr ac arbenigwyr pan fydd angen

h. sicrhau eich bod chi a'ch gweithwyr yn defnyddio cyfnodau o drosglwyddo pob dydd a digwyddiadau a phrofiadau dyddiol eraill i baratoi pobl ar gyfer newidiadau sylweddol a fydd yn digwydd yn eu bywydau yn y dyfodol

i. sicrhau bod cofnodion ac adroddiadau ynglŷn â chefnogi pobl trwy gyfnodau o drosglwyddo a digwyddiadau pwysig yn eu bywydau yn gywir, yn ddiweddar ac yn cael eu gwirio'n rheolaidd

## LMC B3.3 Gweithredu ac adolygu systemau, gweithdrefnau ac arferion ar gyfer rhannu gwybodaeth am gyfnodau o drosglwyddo a digwyddiadau pwysig mewn bywydau

### Meini Prawf Perfformio

Mae angen i chi ddangos eich bod yn

a. gweithredu ac yn adolygu effeithiolrwydd systemau, gweithdrefnau ac arferion ar gyfer rhannu gwybodaeth a chadw cofnodion ar bobl sy'n mynd trwy gyfnodau o drosglwyddo a digwyddiadau pwysig yn eu bywydau, yng nghyd-destun gofynion deddfwriaeth, rheoliadau ac arolygiadau a gofynion cyfundrefnol

b. sicrhau bod gweithwyr yn ymwybodol o wybodaeth ynglŷn â chyfnodau o drosglwyddo a digwyddiadau pwysig mewn bywyd:
   - sy'n gyfrinachol ac na ddylid ei rhannu
   - sydd angen caniatâd cyn y gellir ei rhannu
   - y dylid ac y gellir ei rhannu gydag unigolion, sefydliadau ac asiantaethau eraill
   - a fydd yn cefnogi pobl i allu addasu i amgylchiadau newydd

c. sicrhau bod systemau a gweithdrefnau ar gael i ymateb i unrhyw **gyfyng-gyngor** sy'n codi o ganlyniad i gyfnodau o drosglwyddo a digwyddiadau pwysig mewn bywyd

d. sicrhau bod cefnogaeth ar gael i bobl a gweithwyr drafod materion, tensiynau a'r effaith mae cyfnodau o drosglwyddo a digwyddiadau pwysig mewn bywyd wedi ei chael arnynt

e. sicrhau bod systemau adrodd a chofnodi'n diogelu pobl, gweithwyr a phobl broffesiynol eraill

f. sicrhau bod cofnodion ac adroddiadau ynglŷn â chyfnodau o drosglwyddo a digwyddiadau pwysig mewn bywydau pobl:
   - yn cael eu cadw'n ddiogel
   - yn cael eu diweddaru'n rheolaidd
   - yn gywir ac wedi'u seilio ar dystiolaeth
   - ar gael yn unig i'r rheiny sydd â hawl i'w gweld ac sydd angen eu gweld
   - yn gwahaniaethu'n glir rhwng dyfarniad, ffaith a barn
   - dim ond yn cael eu trosglwyddo i sefydliadau partner perthnasol gyda'r cytundebau a'r cydsyniadau priodol
   - yn cydymffurfio â gofynion cyfreithiol, rheoliadau, arolygiadau a chyfundrefnol

g. sicrhau bod cofnodion y bobl hynny sy'n symud o'ch darpariaeth yn cael eu pasio ymlaen yn brydlon ac yn ddiogel i'r sefydliad neu'r unigolyn sydd i'w derbyn

## Manyleb gwybodaeth ar gyfer yr uned gyfan

Mae arferion arwain a rheoli cymwys yn gofyn am ddefnyddio sgiliau a gwybodaeth ar sail gwerthoedd a moesau. Mae'r fanyleb hon yn manylu ar y wybodaeth a'r ddealltwriaeth sy'n ofynnol i arwain a rheoli'n gymwys fel y disgrifir yn yr uned hon.

**Wrth ddefnyddio'r fanyleb hon mae'n bwysig i ddarllen y gofynion gwybodaeth mewn perthynas â disgwyliadau a gofynion eich swydd ac yng nghyd-destun yr uned hon**

Mae angen i chi ddarparu tystiolaeth ar gyfer POB pwynt gwybodaeth a restrir isod.

| | |
|---|---|
| Mae angen i chi ddangos bod gennych wybodaeth drylwyr o'r canlynol, a'ch bod yn eu deall ac yn gallu eu defnyddio yn eich arferion rheoli: | |
| **Gwerthoedd** | |
| 1. | Gofynion cyfreithiol a chyfundrefnol ar gydraddoldeb, amrywiaeth, gwahaniaethu, hawliau, cyfrinachedd a rhannu gwybodaeth o ran rheoli darpariaeth sy'n delio'n effeithiol â chyfnodau o drosglwyddo a digwyddiadau pwysig mewn bywydau |
| 2. | Gwybodaeth ac arferion sydd wrth wraidd y dull gwaith cyfannol sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ac sy'n eich galluogi i arwain a rheoli darpariaeth sy'n delio'n effeithiol â chyfnodau o drosglwyddo a digwyddiadau pwysig mewn bywydau mewn ffyrdd sy'n:<br>• rhoi dyheadau'r bobl yn ganolog i bopeth rydych chi'n ei wneud ac yn ystyried eu pennaf les<br>• darparu cymorth gweithredol i bobl<br>• sicrhau y gall pobl gael gafael ar wybodaeth amdanynt eu hunain ar ffurf y maent yn ei ddeall<br>• darparu cyfleoedd ar gyfer **cynrychiolaeth ac eiriolaeth annibynnol**<br>• defnyddio dulliau cyfathrebu ac iaith ddewisol pobl<br>• cydnabod bod pobl a'u hamgylchiadau'n unigryw<br>• galluogi pobl i gymryd cyfrifoldeb (o fewn unrhyw gyfyngiadau a roddir arnynt) a chyfathrebu eu penderfyniadau am eu bywydau eu hunain, cyn belled ag y maent yn gallu gwneud hynny |
| 3. | Sut i werthuso'n feirniadol a **chymryd camau gwybodus yn erbyn gwahaniaethu** wrth reoli darpariaeth sy'n delio'n effeithiol â chyfnodau o drosglwyddo a digwyddiadau pwysig mewn bywyd |
| 4. | Sut i gynorthwyo pobl, gweithwyr a phobl eraill berthnasol i adnabod a chymryd camau gwybodus yn erbyn gwahaniaethu wrth reoli darpariaeth sy'n delio'n effeithiol â chyfnodau o drosglwyddo a digwyddiadau pwysig mewn bywydau |
| 5. | Damcaniaethau ac agweddau tuag at eiriolaeth, grymuso pobl a hawliau pobl |
| **Deddfwriaeth a pholisi** | |
| 6. | Rheoliadau, gofynion arolygu, codau ymarfer ac ymddygiad, safonau ac arweiniad ar gyfer cyflogwyr a gweithwyr cyflogedig, sy'n berthnasol i'ch:<br>• darpariaeth<br>• swyddogaethau, cyfrifoldebau ac atebolrwydd eich hun |

| | |
|---|---|
| • swyddogaethau, cyfrifoldebau ac atebolrwydd pobl eraill<br>mewn perthynas â rheoli darpariaeth sy'n delio'n effeithiol gyda chyfnodau o drosglwyddo a digwyddiadau pwysig mewn bywydau | |
| 7. | Deddfwriaeth, safonau, arweiniad a gofynion cyfundrefnol lleol, cenedlaethol, DU, Ewropeaidd a Rhyngwladol cyfredol ar **arwain** a **rheoli** darpariaeth sy'n delio'n effeithiol gyda chyfnodau o drosglwyddo a digwyddiadau pwysig mewn bywydau, gan gynnwys:<br>• yr angen i gyflawni **canlyniadau cadarnhaol** i bobl<br>• yr angen i ddiogelu ac amddiffyn pobl rhag pob math o beryglon, niwed a **chamdriniaeth**<br>• arferion cyflogaeth ar gyfer y ddarpariaeth a'r **gwasanaeth**<br>• trefniadau **llywodraethu** eich darpariaeth<br>• diogelu a chofnodi data, a pharatoi adroddiadau<br>• gwneud a delio â sylwadau a chwynion i wella gwasanaethau<br>• chwythu'r chwiban<br>• gweithio mewn **partneriaeth** a mathau eraill o weithio<br>• hyrwyddo gwasanaethau a chyfleusterau eich darpariaeth |
| 8. | Gofynion cyfundrefnol ar gyfer cofnodi ac adrodd ar gyfnodau o drosglwyddo a digwyddiadau pwysig mewn bywydau, gan gynnwys:<br>• sut dylid cael mynediad i adroddiadau a chofnodion, â llaw a thrwy Dechnoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh)<br>• sut mae sicrhau nad yw cofnodion ac adroddiadau'n cyfrannu at labelu a difrïo pobl<br>• y gofynion diogelwch ar gyfer gwahanol gofnodion ac adroddiadau<br>• y gofynion ar gyfer cynhyrchu, cwblhau a rhannu gwahanol fathau o gofnodion ac adroddiadau'n briodol ac o fewn amserlenni gofynnol<br>• y mathau o ddata, gwybodaeth a dulliau cyflwyno sy'n briodol i gofnodion ac adroddiadau penodol ac anghenion penodol pobl<br>• pwysigrwydd nodi a yw'r ffynhonnell yn seiliedig ar dystiolaeth, ffeithiau neu farn sy'n seiliedig ar wybodaeth<br>• pryd a sut dylid defnyddio barn sy'n seiliedig ar wybodaeth, ffeithiau a thystiolaeth i ategu barn broffesiynol mewn cofnodion ac adroddiadau |
| 9. | Sut i weithredu, gwerthuso a dylanwadu ar ddatblygiad polisïau, systemau, prosesau a gweithdrefnau rheoli'r dyfodol mewn perthynas â delio'n effeithiol gyda chyfnodau o drosglwyddo a digwyddiadau pwysig mewn bywydau |
| **Damcaniaethau ac arferion arwain a rheoli** | |
| 10. | Sut i werthuso'n feirniadol a gweithredu arferion gorau drwy ddefnyddio'r wybodaeth ddiweddaraf am reoli cyfnodau o drosglwyddo a digwyddiadau pwysig mewn bywydau yn effeithiol, gan gynnwys:<br>• deunydd darllen sy'n gysylltiedig ag arwain a rheoli cyfnodau o drosglwyddo a digwyddiadau pwysig mewn bywydau<br>• dulliau, egwyddorion ac agweddau ar arwain a rheoli sy'n berthnasol i gyfnodau o drosglwyddo a digwyddiadau pwysig mewn bywydau<br>• adroddiadau, ymholiadau ac ymchwil gan y llywodraeth sy'n berthnasol i arwain a rheoli cyfnodau o drosglwyddo a digwyddiadau pwysig mewn bywydau |

| | |
|---|---|
| | • damcaniaethau sy'n seiliedig ar dystiolaeth a gwybodaeth a modelau arferion da mewn arwain a rheoli cyfnodau o drosglwyddo a digwyddiadau pwysig mewn bywydau<br>• gwersi sydd wedi'u dysgu o ran arwain a rheoli cyfnodau o drosglwyddo a digwyddiadau pwysig mewn bywydau, yn sgil ymyriadau llwyddiannus ac achosion o fethiant difrifol mewn gwasanaethau ac arferion<br>• profiadau pobl yn eich darpariaeth o'r dulliau rheoli, y gweithdrefnau a'r arferion sy'n ymwneud â delio gyda chyfnodau o drosglwyddo a digwyddiadau pwysig mewn bywydau |
| 11. | Gofynion, gweithdrefnau, meini prawf, dulliau a dangosyddion ansawdd a rheoli perfformiad sy'n berthnasol i ddatblygu rheolaeth eich darpariaeth o gyfnodau o drosglwyddo a digwyddiadau pwysig mewn bywydau |
| 12. | Dulliau o reoli a datblygu arferion mewn gwasanaethau gofal mewn perthynas â chyfnodau o drosglwyddo a digwyddiadau pwysig mewn bywydau, gan gynnwys:<br>• sut i ymgynghori â phobl, gweithwyr a phobl eraill berthnasol<br>• sut i annog pobl i gymryd rhan a chyfranogi<br>• sut i cynorthwyo, goruchwylio a datblygu staff<br>• effaith ymddygiad cyfundrefnol ar y ddarpariaeth<br>• prosesau grŵp ac unigolion<br>• sut gellir defnyddio a chamddefnyddio cydgysylltiadau pŵer |
| 13. | Sut i gynllunio a rheoli adnoddau a'r goblygiadau ar gyfer:<br>• darparu gwasanaethau<br>• cyflawni targedau<br>• cyflawni canlyniadau cadarnhaol |
| 14. | Gwahanol fathau o newid a'u goblygiadau o ran arwain a rheoli eich darpariaeth a'ch gwasanaeth |
| 15. | Sut mae ffactorau seicolegol, economaidd gymdeithasol, diwylliannol ac amgylcheddol y bobl hynny yn y ddarpariaeth yn effeithio ar sut rydych chi'n rheoli gweithwyr i ddelio â chyfnodau o drosglwyddo a digwyddiadau pwysig mewn bywydau |
| 16. | Sut a lle y dylid ac y gellir defnyddio technoleg yn eich darpariaeth ar gyfer rheoli a delio â chyfnodau o drosglwyddo a digwyddiadau pwysig mewn bywydau |
| 17. | Sut i reoli'r cymorth y bydd pobl yn ei gael pan fyddant yn delio â chyfnodau o drosglwyddo a digwyddiadau pwysig eraill yn eu bywydau:<br>• ar wahanol adegau o'u bywydau<br>• sy'n tarfu ar gysylltiadau sefydlog a rhwydweithiau cefnogi<br>• pan fydd yna agweddau cymdeithasol negyddol<br>• pan fyddant wedi profi ymlyniadau anniogel yn y gorffennol<br>• pan fydd pobl wedi dioddef gwahanol fathau o gamdriniaeth, esgeulustod, bwlio, erledigaeth a thrais |
| 18. | Sut i reoli darpariaeth a chefnogaeth sy'n hyrwyddo ffactorau amddiffynnol, gan gynnwys:<br>• hyrwyddo hunaniaeth, lles a hunan-barch cadarnhaol<br>• cysylltiadau sefydlog a rhwydweithiau cymdeithasol |

| |
|---|
| • cefnogaeth arbenigol ac arbenigedd<br>• datblygu a chynnal cefnogaeth trwy rwydweithiau newydd<br>• gweithio'n benodol i leihau gwahaniaethu, anfantais ac allgau |
| 19. Sut mae eich darpariaeth yn gallu cyfrannu at gynorthwyo pobl i brofi cyfnodau llwyddiannus o drosglwyddo trwy:<br>• ei hagwedd at iechyd, dysgu, anghenion ysbrydol, gweithgareddau hamdden, annibyniaeth a dinasyddiaeth<br>• fanteisio ar gefnogaeth sydd ar gael trwy fentrau gan y llywodraeth<br>• leoliad, amgylchedd ac adeiledd ffisegol y ddarpariaeth, a'i pherthynas â'r gymuned, gwasanaethau ac asiantaethau eraill |
| 20. Gwybodaeth gywir a diweddar am asiantaethau sy'n gallu rhoi cymorth i bobl sy'n profi cyfnodau o drosglwyddo a digwyddiadau pwysig yn eu bywydau |
| 21. Pwysigrwydd sefydlogrwydd ym mywydau pobl a sut mae cyfnodau o drosglwyddo a digwyddiadau pwysig yn eu bywydau yn gallu effeithio ar y sefydlogrwydd hwnnw |
| 22. Yr effaith y mae:<br>• lleoliad, adeiledd ffisegol ac amgylchedd y ddarpariaeth, yn ogystal â'i pherthynas â'r gymuned, gwasanaethau ac asiantaethau eraill, yn gallu ei chael o bosib<br>• polisi cymdeithasol ac agweddau cymdeithasol yn gallu ei chael ar bobl sy'n gorfod profi cyfnodau o drosglwyddo<br>• newid yn gallu ei chael ar bobl, eu rhieni/cynhalwyr ac unigolion arwyddocaol eraill |
| 23. Damcaniaethau ac ymchwil ar batrymau teuluol a sut maent yn gallu effeithio o bosib ar bobl sy'n profi cyfnodau o drosglwyddo a digwyddiadau pwysig yn eu bywydau, gan gynnwys partneriaethau a strwythurau cymdeithasol, teuluol a chymunedol ac eang yn y DU |
| 24. Damcaniaethau, dulliau a ffyrdd o weithio sy'n berthnasol i:<br>• gyfathrebu a chysylltu'n effeithiol â phobl, rhieni, teuluoedd, cynhalwyr a phobl arwyddocaol eraill<br>• adeiladu ar gryfderau yn ogystal ag adnabod anawsterau<br>• ymddygiad unigolyn, teulu a grŵp a dynameg grŵp |
| 25. Sut i hyrwyddo gallu pobl i ymdopi â newidiadau, problemau a rhwystrau y gallent eu hwynebu yn eu bywydau |